18 Medi 2008

Annwyl Gwsmer

CODI'R HYSBYSIAD BERWI DŴR

Rwy'n falch iawn o gadarnhau **na fydd angen i chi ferwi eich dŵr tap o lau 18 Medi 2008 ymlaen.**

Fel yr esboniais yn fy llythyr blaenorol, cyflenwir eich dŵr tap gan waith trin dŵr Mynydd Llandygai ac roedd ein rhaglen samplo rheolaidd wedi datgelu cynnydd yn nifer yr wyau cryptosporidiwm. Arweiniodd hynny at ofyn i chi ddilyn y mesur diogelwch o ferwi dŵr tap at ddibenion yfed neu baratoi bwyd.

Erbyn hyn gosodwyd offer trin uwchfioled yn y gwaith, fydd yn lladd hyd yn oed lefelau isel iawn o barasit cryptosporidiwm a allai fod yn bresennol mewn dŵr tap.

Byddwn hefyd yn diweddaru cynlluniau ar gyfer buddsoddiad pellach o £9 miliwn fydd yn gwella ansawdd cyffredinol y dŵr a gyflenwir gan waith Mynydd Landygai.

Diogelu iechyd y cyhoedd yw ein blaenoriaeth ar bob amser ac fe gyflwynwyd yr hysbysiad berwi'r dŵr yn unol â hynny. Hyd yma, ni hysbyswyd unrhyw achosion o salwch yn deillio o bresenoldeb cryptosporidiwm yn y cyflenwad dŵr.

Rydym yn deall fod gofyn i chi ferwi dŵr tap wedi profi'n anghyfleustra mawr dros yr wythnosau diwethaf. Mae'n wir ddrwg gennym ac yn ôl yr addewid byddwn yn anfon siec am £25 i gydnabod hynny. Bydd yn eich cyrraedd o fewn y 21 diwrnod nesaf.

Yn olaf, diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad yng nghyfnod yr hysbysiad berwi dŵr. Os am drafod y mater ymhellach, galwch ni ar 0800 0520130.

Yn gywir

Nigel Annett
Rheolwr Gyfarwyddwr